

Daliwr Trwydded Tacsî

Gofynnwch am: Carfan Trwyddedu Tacsîs

Ein Cyf: Tariff

Eich Cyf:

Dyddiad: 11 Awst 2022

Annwyl Ddaliwr Trwydded,

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
Diwygio'r Tariff Cerbyd Hacni

Sylwch fod y Tariff Cerbyd Hacni newydd yn dod i rym am 00:01am ar 31 Awst 2022. Mae copi o'r tabl prisiau newydd ar gael ar waelod y dudalen er gwybodaeth.

Mae disgwyl i fesuryddion pob Cerbyd Hacni gael eu hail-raglennu o fewn 3 mis. Mae'n bosibl bydd methu â gwneud hyn yn arwain at gamau gorfodi.

Er mwyn i ddeiliaid trwydded roi'r tabl prisiau newydd ar waith cyn gynted â phosibl, mae angen y camau gweithredu canlynol:-

1. Rhaid i Ddaliwyr Trwydded Cerbydau drefnu i'w Mesurydd Tacsî gael ei ail-raglennu gyda'r tabl prisiau newydd. (Cyfrifoldeb y daliwr trwydded cerbydau yw trefnu'r diweddariad a bydd cost ynghlwm â hyn, yn daladwy i'r cwmni perthnasol).
2. Mae'n ofynnol i ddaliwyr trwydded fynd i swyddfeydd Tŷ Elái er mwyn i swyddog weld y dystysgrif graddnodi a gwirio bod y mesurydd wedi'i raglennu'n gywir.
3. Bydd swyddogion ar gael yn y swyddfa rhwng 09.00am a 4.30pm o ddydd Mercher 31 Awst tan ddydd Gwener 9 Medi (ac eithrio dydd Sadwrn/Sul).

Ar ôl y dyddiad uchod bydd swyddogion yn bresennol yn y swyddfa o 09.30am tan 12.30pm yn ystod yr wythnos yn dechrau 12 Medi a'r wythnos yn dechrau 19 Medi.

Ar ôl y dyddiad yma bydd angen trefnu apwyntiad i sicrhau bod swyddog ar gael.

4. Bydd angen i'r Swyddogion Trwyddedu Tacsis weld y dystysgrif graddnodi a gaiff ei darparu gan y cwmni sy'n cynnal y diweddariad. Bydd hyn yn cael ei gofnodi i gadarnhau'r dyddiad y caiff y mesurydd ei ddiweddaru.
5. Bydd dalwyr trwydded sy'n methu â diweddaru eu mesuryddion o fewn 3 mis yn cael eu trin gan arferion gorfodi arferol, ond mae hyn yn debygol o fod yn ddiangen.

Tariff	Pris	Pellter ychwanegol
Tariff 1	£4.00	10c fesul 1/18 Milltir
Tariff 2	£4.50	10c fesul 1/20 Milltir
Tariff 3	£5.00	10c fesul 1/20 Milltir
Tariff 4	£5.40	20c fesul 1/12 Milltir

Mae disgwyl i'r galw fod yn uchel yn yr ychydig wythnosau nesaf ac rydyn ni'n gofyn i ddalwyr trwydded am eu cydweithrediad wrth ystyried amser ein swyddogion.

Os oes unrhyw gwestiynau gyda chi ynglŷn â'r mater yma, cysylltwch â'r Swyddogion Trwyddedu Tacsis drwy e-bostio Adran.Trwyddedu@rctcbc.gov.uk. Mi fyddan nhw'n hapus i'ch cynorthwyo chi.

Yn gywir,



Martin Owen
Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol